




Y Grŵp Ymchwil ar gyfer Atal Camfanteisio, Erchyllterau, Llygredd ac Eithafiaeth
The Research Group for the Prevention of Exploitation, Atrocities, Corruption and Extremism

Cyflwyniad

Waeth beth fo'n harbenigedd, ein disgyblaethau a'n sgiliau unigryw, mae'n ddyletswydd arnom i hyrwyddo a diogelu bodolaeth gyfiawn, ddiogel ac iach. Mae'r teimlad hwn yn fwyfwy perthnasol i academyddion. O fewn ei achrediadau sy'n seiliedig ar genhadaeth, mae'r Rhwydwaith Ysgolion Polisi Cyhoeddus, Materion Cyhoeddus a Gweinyddu Cyhoeddus (NASPAA) wedi mabwysiadu [Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig](#) er mwyn creu "dyfodol gwell a mwy cynaliadwy i bawb". Yn ei Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2029 (FfRhY), mae'r Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau o'r safon uchaf gynnal astudiaethau a gwaith a fydd â defnydd ac yn cael effaith yn y byd go iawn.

Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Aberystwyth yn cefnogi [canolfannau a phrosiectau](#) amrywiol, gan geisio "atebion i faterion byd-eang trwy feithrin dulliau trawsddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol". Mae hyn yn hyrwyddo [cynllun a chenhadaeth](#) y sefydliad, ond hefyd yn adleisio diffiniad FfRhY y DU o effaith (UKRI, 2022). Er mwyn datblygu'r ymdrechion hyn ymhellach, fodd bynnag, mae cynghrair sy'n ymroddedig i hyrwyddo gwaith o'r fath yn hollbwysig.

Nod

Bydd y Grŵp Ymchwil ar gyfer Atal Camfanteisio, Erchyllterau, Llygredd ac Eithafiaeth (Grŵp Ymchwil PEACE) yn hyrwyddo ymdrechion gyda'r nod o archwilio a gwrthwynebu'r modd y caiff pobl, pŵer, swyddi a llwyfannau eu camddefnyddio, eu cam-drin a'u manipiwleiddio.

Strategaeth a thactegau Cydweithio

Gan wasanaethu mewn rôl gefnogol yn bennaf, bydd Grŵp Ymchwil PEACE yn gweithredu fel cyswllt ar gyfer staff, myfyrwyr a phartneriaid allanol i hyrwyddo cydweithrediad ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ynghyd â'i gyfathrebu rheolaidd, bydd y grŵp yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio sy'n canolbwyntio ar weithredu, yn mynd i gynadleddau, yn trefnu darlithoedd, ac yn trefnu cyfarfodydd i aelodau, ac ati.

O ran yr ymdrechion cydweithredu, mae nifer o ganolfannau ymchwil Prifysgol Aberystwyth a phartïon allanol wedi mynegi diddordeb eisoes (e.e. [y Sefydliad Atal Hil-laddiad ac Erchyllterau Torfol](#), [Solidariaeth Palesteina Aberystwyth](#), [i-Intelligence](#), [Do-Well](#), [Prosiect LUNA](#), [Gorllewin Cymru](#) yn erbyn arfau).

Fformatau'r Cyfarfodydd	Y Cyfranogwyr	Dibenion
Cyfarfodydd Bwrdd	Aelodau'r Pwyllgor	Rheoli gweinyddol a logistaidd
Melinau Trafod	Staff, myfyrwyr, arbenigwyr	Rhannu diddordebau a syniadau ymchwil
Digwyddiadau Cymdeithasol	Gwahoddiad agored	Cyflwyniadau, recriwtio, cymdeithasu

Gwasanaethau a Meithrin Cyswllt

Mae cryn drafodaeth ynghylch sut i ddiffinio *diwylliant ymchwil* o fewn Addysg Uwch. Yn seiliedig ar agweddau a nodwyd gan y Gymdeithas Frenhinol (2017) a melinau trafod llwyddiannus, bydd Grŵp Ymchwil PEACE yn meithrin ymchwil gadarnhaol, cynhyrchiol, creadigol, cadarn ac agored. Yn rhannol, mae hyn yn golygu nodi materion a meysydd newydd ar gyfer ymdrechion ar y cyd yn ogystal â hyrwyddo astudiaethau a digwyddiadau annibynnol (e.e., [Protest y](#)

Llinell Goch, Cynhadledd Gwrthgaethwasiaeth Cymru, yr Arddangosfa 'Bywydau Ansefydlog', y Prosiect Llwybr at Heddwch).

Y tu hwnt i hyn, drwy benodi rolau rheoli (e.e. Cadeirydd, Trysorydd, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cynrychiolydd Myfyrwyr, ac ati), bydd Grŵp Ymchwil PEACE yn hybu ymgysylltiad ymhellach trwy ddatblygu ei gyfleoedd a'i gynnwys ei hun. Yn y pen draw, gallai'r grŵp ddefnyddio cyfleusterau'r Hen Goleg ar ôl iddo gael ei adnewyddu (e.e., safleoedd cynadledda, y Ganolfan Ddeialog, Ystafell y Gyfraith a'r Ffug Lys, ac ati) i hyrwyddo nodau'r **brifysgol** o ran darparu lleoliad i "oresgyn heriau ar y cyd".

Gwasanaethau Grŵp	Dibenion	Enghreifftiau
Deunydd addysgol	Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynnig arweiniad ynghylch materion perthnasol.	Cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, gwefan y brifysgol, taflenni, darlithoedd
Adnoddauartneriaid	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r grŵp ar statws y ganolfan a darparu cymorth unigryw.	Gweithdai, cronfeydd data, cylchlythyrau, negeseuon atgoffa
Cyfleoedd meithrin cyswllt	Annog aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau i gymryd rhan a rhoi hwb i recriwtio	Ffilmiau, orielau, gwirfoddoli, arddangosiadau cyhoeddus

Ymarfer

Er mwyn hybu a hyrwyddo ei nodau cymdeithasol a sefydliadol, bydd Grŵp Ymchwil PEACE yn mabwysiadu ac yn addasu ei arferion i gyd-fynd ag arferion ei aelodau yn ogystal â darllen deunydd darllen yn ymwneud â rheoli gweinyddiaeth a chreu heddwch. Trwy arweinyddiaeth o'r brig i lawr (e.e. goruchwyllo asesiadau effaith, ymdrechion allgymorth, cynllunio digwyddiadau, mentrau ariannu), bydd staff a myfyrwyr sy'n gwirfoddoli (a benodir i dîm rheoli'r grŵp) yn cynnal gwasanaethau a pherthnasedd y grŵp. Trwy arweinyddiaeth o'r gwaelod i fyny (e.e., perfformio astudiaethau, cynnal canolfannau ymchwil, datblygu prosiectau), bydd aelodau'r grŵp yn gweithio i rannu, astudio a datrys materion yn y byd go iawn i ymgorffori a hyrwyddo ethos y grŵp.

O ran ei arferion academiaidd, bydd y grŵp yn gweithio gydag addysgwyr i nodi cyfleoedd a datblygu deunyddiau sy'n atgyfnerthu cwricwlwm a gwerthoedd addysgeol y rhaglenni a'r modiwlau (e.e., dysgu dilys, lluniadaeth, dysgu seiliedig ar ymchwilio, addysgu myfyrion, ac ati).

Ymchwil

I ddechrau, bydd Grŵp Ymchwil PEACE yn cynnal **prosiectau ymchwil gweithredol**, i ddatblygu cwricwlwm o amgylch deall ac atal camfanteisio, erchyllterau, llygredd ac eithafiaeth. Ar gyfer hyn, bydd data yn cael ei gasglu i asesu ymatebion ymhlith myfyrwyr a staff. Gyda chyllid ac aelodaeth briodol, bydd y grŵp hefyd yn dilyn astudiaethau gwreiddiol ar faterion yn y byd go iawn.

Agenda a Nodau

2025	2026	2027
- Cael cyllid - Recriwtio aelodau - Datblygu brandio - Penodi aelodau'r bwrdd	- Nodi meysydd ar gyfer cydweithio - Cynnal digwyddiadau - Lansio cylchlythyr digidol - Meithrin cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr - Cynnal calendr o lwybrau cyllid a hwb o adnoddau a rennir	- Cynllunio'r cynllun gradd - Creu cyfleoedd nawdd - Datblygu cynhadledd flaenllaw flynyddol

Mesuriadau ychwanegol o lwyddiant

- Sgoriau asesiadau Addysg Uwch
- Aelodaeth/achrediaid allanol
- Diddordeb a chyfranogiad myfyrwyr
- Ymchwil a/neu gymorth prosiect
- Cydlynu digwyddiadau
- Y nifer sy'n ymweld â gwefan y Grŵp Ymchwil PEACE
- Dyfyniadau/cyfeiriadau mewn ffynonellau allanol
- Nifer y digwyddiadau a'r mynychwyr

Manylion Cyswllt

Os oes gennych ddiddordeb mewn llunio Grŵp Ymchwil PEACE o'r gwaelod i fyny, neu os ydych chi eisiau dysgu mwy, cysylltwch â **Dr Dakota Ward** ar daw129@aber.ac.uk.